# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 12/10/11

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Huw Edwards, (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorydd Pat Larsen

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Gwyn Hefin Jones (Yr Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynnwyr).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Miss Miriam Williams (NAS/UWT), Mrs Lisabeth Roberts (NAHT).

**Aelod Cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Selwyn Griffiths, Dafydd Roberts, Aeron Jones a John Gwilym Jones (ex-officio), Y Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mrs Alwen Watkins (ASCL), Mrs Leusa Jones (Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol).

**Gair o Groeso:** Croesawyd Mrs Lisabeth Roberts, Pennaeth Ysgol Maesincla, i'r cyfarfod ac yr un pryd fe longyfarchwyd yr ysgol ar lwyddiannau yn deillio o arolwg gan ESTYN yn ddiweddar.

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Noel Dyer.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2011 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ychwanegu'r eitemau canlynol iddynt:

1. **Ethol Cadeirydd**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Huw Edwards yn Gadeirydd CYSAG am y flwyddyn 2011/12.**

2. **Ethol Is-gadeirydd**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Dafydd Roberts yn Is-gadeirydd CYSAG am y flwyddyn 2011/12.**

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2010-11**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2010-11, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau, bod yr adroddiad yn grynhoad o drafodaethau CYSAG yn ystod y flwyddyn flaenorol o Fedi 2010 hyd Awst 2011, a'i fod gerbron yr aelodau , er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi barn ar yr adroddiad drafft cyn cyflwyno adroddiad terfynol i Adran Addysg y Cynulliad.

Eglurwyd mai swyddogaeth CYSAG oedd cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, a'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio at y dulliau a ddefnyddir i roi sylw cyson i fonitro safonau Addysg Grefyddol, trwy adolygu adroddiadau arolygiadau ysgolion ESTYN (y rhai a arolygwyd cyn Medi 2010) yng nghyd-destun cwestiwn allweddol 1 a'r ddarpariaeth ynglŷn â datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion; derbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion ynghyd â monitro canlyniadau arholiadau. Atgoffwyd Aelodau na fyddai cyfeiriad penodol at addysg grefyddol yn yr adroddiadau arolygu o hyn ymlaen a prin fydd cyfeiriad at addoli ar y cyd. Yn unol â'r drefn a fabwysiadwyd gofynnir i ysgolion, o fewn blwyddyn yr arolygiad, gyflwyno Hunan Arfarniadau o'r pwnc Addysg Grefyddol ac o'r elfen yn ymwneud â datblygiad moesol y disgyblion. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 6 crynodeb hunan arfarniad - 1 uwchradd a 5 cynradd a oedd yn dyfarnu safonau rhagorol a da. Ymfalchïwyd bod ysgolion yn onest iawn yn eu dyfarniadau ac yn rhannu rhai agweddau sydd yn mynd i dderbyn sylw pellach.

Cyfeiriwyd at ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd gan nodi bod pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac fel rhan o'r drefn hunan arfarnu fe ofynnir i athrawon am eu barn ar safon addoli ar y cyd.

Esboniwyd mai canlyniadau addysg grefyddol y llynedd a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac fe drafodwyd y canlyniadau hyn gan CYSAG ym mis Hydref 2010. Cyfeiriwyd yn benodol at ganlyniadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Addysg Grefyddol 2010 gan nodi ei bod yn anoddach y dyddiau hyn i roi barn ar ganlyniadau allanol a chael darlun teg o'r patrwm oherwydd bod disgyblion yn ymgymryd ag amrywiol gyrsiau ar gyfnodau gwahanol o'u bywydau rhwng blwyddyn 10 a blwyddyn 13. Tynnwyd sylw ymhellach nad oedd canlyniadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn ymddangos ar raglen CYSAG y tymor hwn ychwaith er bod y canlyniadau wedi eu cyhoeddi, roedd yr Ymgynghorydd Dyniaethau o'r farn mai annheg fyddai cyflwyno canlyniadau addysg grefyddol mewn dogfen gyhoeddus hyd nes derbynnir cymhariaeth deg o berfformiad disgyblion mewn pynciau eraill hefyd.

Crynhowyd gwaith y gwasanaeth ymgynghorol ym maes Addysg Grefyddol ac amlinellwyd y cyrsiau a gynigiwyd o dan raglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd yr Awdurdod. Noda'r adroddiad gysylltiad gyda APADGOS.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol gwnaed y sylwadau canlynol:

(a) Ymfalchïwyd bod y taflenni hunan arfarniad a gyflwynwyd i Wynedd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau wedi cael eu mabwysiadu a'u gweithredu drwy Gymru gyfan. Llongyfarchwyd a diolchwyd i'r Ymgynghorydd Dyniaethau bod model Gwynedd ar ddefnydd gan awdurdodau eraill yng Nghymru.

(b) Mewn ymateb i ymholiad, derbyniwyd eglurhad gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau mai Addysg ar gyfer Datblygu Addysg Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-eang ydoedd yr acronym ADCDF.

(c) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a oedd toriadau mewn gwariant yr awdurdod wedi effeithio ar Hyfforddiant mewn Swydd, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod cydweithrediad ers blynyddoedd lawer gydag ysgolion ac nad ydynt fel athrawon yn cael llawer o ddewis gan fod ysgolion yn cau ddwywaith y flwyddyn ar gyfer cynnal Hyfforddiant mewn Swydd ac wedi eu rhaglennu fesul ardal.

(ch) Mynegodd aelod sy'n cynrychioli ward difreintiedig, ei bryder bod pwysau ar ysgolion cynradd i gynnal safon addysg grefyddol a pherygl i'r pwnc ddiflannu oherwydd diffyg diddordeb ynddo, yn enwedig pan nad oes cefnogaeth addysgol gref yn y cartrefi a lleihad mewn mynychu Ysgolion Sul o'i gymharu â'r gorffennol.

Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod niferoedd sy'n dewis addysg grefyddol fel pwnc yn eitha' llewyrchus. Cydnabyddai ymdrechion ysgolion cynradd yn y gwaith a wneir ond nodwyd nad oedd disgwyl i ysgolion cynradd adrodd cyrhaeddiad disgyblion o ran lefelau yn y pwnc.

(d) nodwyd bod sylw yn y wasg yn ddiweddar ynglyn â chyflwyno canlyniadau ysgolion ar sail data teuluoedd ac a fyddai hyn o gymorth o safbwynt canlyniadau addysg grefyddol.

Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau parthed Cyfnod Allweddol 3 (disgyblion 11 – 14 oed) y cyflwynir asesiadau athrawon i'r Cynulliad ac fe'u rhestrir mewn teuluoedd. Oherwydd bod addysg grefyddol yn cael ei reoli yn lleol nodwyd nad oedd y canlyniadau yn cael eu casglu'n genedlaethol. Nodwyd ymhellach gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau ei bod yn ymwybodol o berfformiad disgyblion Gwynedd a Môn mewn addysg grefyddol.

Yng nghyswllt disgyblion hŷn (15 – 18 oed), nodwyd bod addysg grefyddol yn un o'r pynciau dewisol a theimlwyd ei fod yn fwy cymhleth i wneud cymhariaeth deg os defnyddir data teuluoedd. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y byddir yn cyflwyno'r canlyniadau i aelodau CYSAG yn eu cyfarfod yn ystod tymor y Gwanwyn.

Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am baratoi'r Adroddiad Blynyddol Drafft.

**PENDERFYNWYD derbyn gyda diolch Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG ar gyfer 2010-11.**

## 5. ADOLYGIAD O ADRODDIADAU CYSAGau

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar adolygiadau o Adroddiadau Blynyddol CYSAGau am y cyfnodau 2004 – 2008.

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu gwaith CYSAGau ar sut y cefnogir ysgolion i geisio codi safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru. Nodwyd pwysigrwydd cyflwyno'r adolygiadau hyn gyda CYSAG er mwyn cynnal hunan arfarniad o waith CYSAG ei hunain fel bo modd adnabod dulliau gweithredu effeithiol ar gyfer datblygiad parhaus.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at argymhellion Llywodraeth y Cynulliad fel a ganlyn gan roddi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ar eu perfformiad:

(a) Bod CYSAGau yn parhau i ddarparu cyngor effeithiol i'w hawdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â chodi safonau mewn addysgu a dysgu yn unol â'r meysydd llafur CYTÛN. Dylai pob CYSAG barhau i gefnogi ysgolion a monitro a gwerthuso llwyddiant y cyngor sy'n cael ei roi.

Tra'n hapus gyda'r arweiniad a roddir i CYSAG gwnaed sylw y byddai'n fuddiol i gyflwyno i CYSAG i'r dyfodol taflen yn cynnwys gwybodaeth o'r cyrsiau a ddarperir i'r ysgolion.

(b) Bod CYSAGau yn parhau i gynghori awdurdodau lleol ar fonitro safonau a chefnogi ysgolion cyn ac ar ôl arolygiadau. Hefyd dylai CYSAGau ddatblygu ac argymell dulliau monitro ychwanegol a chyflenwol. Byddai hyn yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i wella safonau addysgu a dysgu mewn addysg grefyddol.

Nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth cyn arolygiadau ac fe fyddir yn treulio amser mewn ysgolion i gynorthwyo ar wendidau pe cyfyd yr angen.

Hyderir hefyd bod y trefniadau o dderbyn hunan arfarniadau ysgolion yn ymateb i'r argymhelliad uchod yn ogystal â chydweithio'n agos gydag ysgolion yn hyn o beth.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod bod argymhelliad (b) yn bwysig i'r awdurdod addysg ar lefel uwch swyddogion yn wyneb y ffaith mai addysg grefyddol yw'r unig bwnc sydd â chyfrifoldeb statudol drosto. Nodwyd ymhellach bod Aelodau CYSAG yn dibynnu'n helaeth ar broffesiynoldeb swyddogion i gynghori a thynnu sylw aelodau at unrhyw wendidau neu fater o bryder ynglyn â safonau.

Nododd Aelod arall ei phryder ynglyn â'r posibilrwydd i rai ysgolion ddisgyn drwy'r rhwyd drwy anghofio cyflwyno hunan arfarniadau ac yn sgil hyn ni fyddai CYSAG Gwynedd yn cyflawni ei ddyletswyddau monitro safonau yn drylwyr.

O safbwynt hunan arfarniadau, anfonodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG cais am hunan arfarniadau mis Ionawr eleni. Derbyniwyd rhai hunan arfarniadau ac fe anfonwyd ail lythyr i atgoffa Penaethiaid ym mis Mai. Erbyn hyn, derbyniwyd pob un namyn dau o hunan arfarniadau'r ysgolion gafodd eu harolygu yn ystod tymor yr Hydref 2010. O'r ysgolion a arolygwyd yng Ngwanwyn 2011, nodwyd bod 2 ysgol allan o 6 wedi cwblhau hunan arfarniadau. Yn yr un modd, o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor Haf 2011, cadarnhawyd bod 2 ysgol allan o 6 wedi ymateb. Nodwyd ymhellach tra'n cydnabod pryder yr Aelod uchod sicrhaodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG nad oedd y sefyllfa yn argyfyngus oherwydd bod gan yr ysgolion amserlen o flwyddyn i'w cyflwyno a chadarnhawyd y byddir yn parhau i atgoffa Penaethiaid o'r angen i'w cwblhau a'u cyflwyno o fewn yr amser penodedig.

(c) Bod CYSAGau yn darparu tystiolaeth o'r trafodaethau sy'n deillio o'r dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau. Dylai CYSAGau hefyd ddarparu tystiolaeth o'r cyngor dilynol sy'n cael ei roi i'r awdurdod lleol a'r camau sy'n cael eu cymryd i helpu ysgolion i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion a chodi safonau.

Nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod CYSAG yn derbyn canlyniadau gyda dadansoddiad o ganlyniadau merched a bechgyn, ynghyd â chanrannau o'r disgyblion sy'n dewis addysg grefyddol fel pwnc.

Mewn ymateb i'r uchod roedd consensws ymysg Aelodau CYSAG eu bod yn cyflawni yn unol â'r argymhelliad uchod.

(ch) Bod CYSAGau yn parhau i roi cyngor ar ddulliau addysgu, adnoddau a hyfforddi athrawon i'w hawdurdodau lleol. Dylai CYSAGau sicrhau bod gweithdrefn werthuso ar waith i asesu effaith y cyngor hwnnw ar safonau.

Mewn ymateb, nododd Aelod bod yr argymhelliad uchod yn gryfder o safbwynt CYSAG Gwynedd oherwydd derbynia'r Aelodau gyflwyniadau a gwelir enghreifftiau sy'n tystio'r hyn sy'n digwydd ar lawr dosbarthiadau'r ysgolion. Yn ogystal, fe geir cyflwyniadau ar adnoddau a chyhoeddiadau newydd.

(d) Bod CYSAGau yn parhau i gynghori eu hawdurdodau lleol ar gefnogi a gwerthuso addoli ar y cyd effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol. Dylai pob CYSAG barhau i ystyried y materion hyn yn gyson.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod addoli ar y cyd wedi ei gynnwys fel rhan o ffurflen hunan arfarniad ysgolion ac fe ddosbarthir arweiniad gan ESTYN ar addoli ar y cyd.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Parchedig Robert Townsend wedi gwneud cais i gynnal arolwg ynglyn a phartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd ac arweinwyr crefyddol pryd y tystiwyd bod perthynas dda rhyngddynt.

Cyfeiriwyd hefyd at adnoddau ar lein gan nodi'n benodol at Fudiad Addysg Grefyddol sy'n cyfieithu deunyddiau i'r Gymraeg a brofir yn werthfawr i'r sector uwchradd.

(e) Bod AdAS yn cydnabod ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud gan CYSAGau a CCYSAGauC o ran cefnogi a chodi safonau mewn addysg grefyddol ac mae'n gwerthfawrogi'r berthynas weithio agos sydd rhyngddynt.

Teimlwyd bod cydweithio a pherthynas da iawn cydrhwng yr Ymgynghorydd Dyniaethau â gwasanaethau ymgynghorol eraill o fewn Cymru. Nodwyd hefyd y ceir cynrychiolaeth ar Gymdeithas CYSAGau Cymru yn dymhorol gydag adborth gwerthfawr i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd â'r sylwadau wnaed mewn ymateb i argymhellion Llywodraeth Cymru.**

## 6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

**Cyflwynwyd:**

Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol y Gelli, Caernarfon
(ii) Ysgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog
(iii) Ysgol Pennal

Tywysodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG yr Aelodau drwy'r hunan arfarniadau uchod gan nodi bod safonau yn rhagorol neu'n dda ac ymfalchïwyd ym mharodrwydd ysgolion i nodi agweddau i'w datblygu ymhellach. Nodwyd bod y Penaethiaid yn weddol newydd i'r swyddi mewn dwy o'r ysgolion uchod sef Ysgol Maenofferen ac Ysgol Pennal.

(a) Nododd Aelod nad oedd sylw penodol i gynnwys addysg grefyddol fel pwnc yn y taflenni hunan arfarniad ac y gellir dehongli bod y sylwadau ar gyfer unrhyw bwnc.

Mewn ymateb, cytunodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ac efallai y byddai'n rhaid addasu'r model oherwydd nad oedd cyfeiriad at sgiliau pynciol er mwyn adnabod addysg grefyddol yn fwy amlwg. Fodd bynnag, fel rhywun yn ymweld ag ysgolion a chynnal hyfforddiant, gallai'r Ymgynghorydd Dyniaethau uniaethu addysg grefyddol i'r sylwadau a'r math o themâu sydd yn cael sylw.

(b) Nodwyd bod arteffactau i'w cael ar fenthyg i ysgolion o Ganolfan Cenedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, Bangor, ac ar gael drwy sustem Llyfrgell y Brifysgol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau**

## 7. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod gofnodion drafft o gyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2011 yn Llangefni.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y cofnodion er gwybodaeth a diolchodd i'w chydweithwyr yn Ynys Môn am ddarparu croeso cerddorol i'r Aelodau ynghyd ag arddangosfa gwaith ysgolion uwchradd a oedd yn dangos gwaith creadigol a wneir ganddynt.

Cyfeiriwyd at ganlyniadau'r cystadlaethau ac yn benodol cyfeiriwyd at Ysgol Ffrwd y Win, Ynys Môn.

Yn deillio o'r cofnodion uchod tynnwyd sylw at argymhelliad y dylai CYSAGau dalu tanysgrifiad o £400 am 2011/12.

**PENDERFYNWYD : (a) Derbyn a nodi cynnwys cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2011 yn Llangefni.**

**(b) Cymeradwyo ail-ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru drwy dalu tanysgrifiad o £400 am y flwyddyn 2010/11**

## 8 GOHEBIAETH

(a) Cyflwynwyd neges E-bost oddi wrth Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain mewn perthynas â chynrychioli Dyneiddwyr ar CYSAGau.

Adroddodd Mr Rheinallt Thomas bod Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi trafod y mater yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2011 pryd cytunwyd i ymofyn eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynglyn â'r datganiadau cyfreithiol a wnaed yn y neges e-bost. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn yn cael ei adrodd yn ôl i GYSAGau. Nodwyd ymhellach y byddai'r mater yn cael ei drafod hefyd yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas yng Nghaerdydd ar 24 Tachwedd 2011. Argymhelliad y Pwyllgor Gwaith ydoedd y dylai CYSAGau ohirio ymateb i'r neges e-bost uchod hyd nes bydd Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi gwneud ymholiadau ac wedi trafod y mater ymhellach.

(b) Erthyglau a ymddangosir yn Newyddion Addysg Grefyddol :

Tynnodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG sylw'r aelodau at yr erthyglau canlynol a ymddangosir yn Newyddion Addysg Grefyddol Rhifyn 89 – Haf 2011:

(i) Tudalen 8 – Canmoliaeth i Ysgol Tryfan, Bangor, yn eu recordiad o'r gân Dathlu Addysg Grefyddol sef Hafan Ffydd.
(ii) Tudalen 16 – Erthygl gan Bethan Andrews, Margaret Williams Roberts, Dewi Davies, Alun Llwyd a Bethan James ar Ysgrifennu Anllenyddol mewn Addysg Grefyddol
(iii) Tudalen 56 – Newyddion o Wynedd a Môn

(iv) Tudalen 70 – Darlith Lansio'r Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol gan Carys Pritchard

(v) Tudalen 84 – Cyhoeddiad o Lyfr Eirian Jones o dan y teitl "Y Gymraes o Ganaan: Anturiaethau Margaret Jones ar Bum Cyfandir".

(c) Cymerwyd y cyfle i longyfarch a dymuno'n dda i Miss Bethan James, Ymgynghorydd Dyniaethau, ar ei phenodiad diweddar fel Cadeirydd, Panel Ymgynghorwyr Cenedlaethol Addysg Grefyddol Cymru.

**PENDERFYNWYD (a) Gohirio ystyried ymateb i E-bost Cymdeithas Dyneiddiwr Prydain hyd nes derbynnir cyfarwyddyd gan Gymdeithas CYSAGau Cymru yn dilyn gwneud ymholiadau â Llywodraeth Cymru.**

**(b) Derbyn, nodi a diolch i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG am ddod â'r erthyglau i sylw'r Aelodau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.30 pm

**CADEIRYDD**